

## Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

### Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun Nos Fawrth 7fed Fawrth 2017

**Yn bresennol :-** Y Cadeirydd Y Cynghorydd Elfed Williams, a'r Cyngorwyr, Phyllis Ellis, Rhian Evans, Richard Ll. Jones, Idris Thomas, R. Hefin Williams a Sion Jones

**Gwedd:** Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll Jones

**1.Ymddiheuriadau.** Euryrn Roberts a Aled Green, Jane Pierce

Derbyniwyd llythyr ymddiswyddiad gan Rachel Williams, a diolch iddi am ei gwaith.

**2. Datgan buddiant.**

Dim

**3. Cofnodion cyfarfod 7fed Chwefror**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**4.Materion o'r cofnodion**

***Biniau Halen*** – Derbyniwyd llythyr gan Gwynedd yn cadarnhau bydd y 2 fin halen sydd wedi diflanu yn Rhiwlas yn cael eu adnewyddu.

***Ffordd Racca i Clwt y Bont*** – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau mai darn o'r ffordd yn unig fydd yn cael eu ail - wynebu yn y flwyddyn gyllidol nesaf. Er eu bod yn cytuno nad ydy'r ffordd mewn cyflwr delfrydol, nid oes cyllideb ar gael yn dilyn toriadau llym. Mae'r gwaith sydd wedi ei raglennu ar y ffordd yn debygol o gostio oddeutu £30,000, ond £200,000 o gyllideb sydd gan yr adran i wario ar ffyrdd Arfon i gyd, felly disgwyl bydd rhaid.

***Gwaith Lon A4086 Brynrefail*** – Lon ar gyfer beicwyr a cherddwyr sydd yn cael ei wneud gyda arian grant yn arbennig i'r perwyl hyn. Mae hwn yn gynllun arbennig, ac does dim posib gwario yr arian ar ddim byd arall. Mae'r cynllun wedi cael ei roi ar waith er sawl blwyddyn, a hyn o bosib yn dilyn llawer o ddamweiniau difrifol ar y ffordd hon.

**5. Cynllunio**

***Ceisiadau a dderbyniwyd:***

***Eglwyds Santes Helen, Penisarwaun*** – Dymchwel Neuadd blwyf gymunedol bresennol a chodi Neuadd blwyf gymunedol deulawr newydd ynghlwm i'r eglwys bresennol.

***Castell, Pentir*** - Rhybudd ymlaen llaw I godi adeilad amaethyddol.

***Llys, Brynrefail*** – Cynllun Diwygiedig –

***Garej Beran*** – Cais am ganiatad i arddangos 12 car yn lle 6.

***Blue Paris*** – Gwaith i goed mewn ardal sy'n destun gorchymyn gwarchod coed.

**Ymgynghoriad i'r Cynllun Datblygu Lleol**

Cyfeiriwyd at newid mewn cymal\_ (**Arfarniad Cynladwyedd: Adroddiad Adendwm, PS1,t.33**)

Cynigiwyd ein bod yn galw ar Gyngor Gwynedd i beidio â dileu'r cymal " Gwrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned".

Derbyniwyd y cais yn unfrydol a phenderfynwyd ysgrifennu cais at Gyngor Gwynedd yn cyfleu hyn, ynghyd a copi i'r Cyngorydd Dafydd Meurig.

## **6. Llythyr i Gymdeithasau/Etholiadau**

Gyda niferoedd o seddi gwag ar y cyngor bellach, penderfynwyd gyrru llythyr I bob cymdeithas sydd yn derbyn cymorth ariannol gan y cyngor yn yr ardal. Bydd hyn yn tynnu sylw fod etholiadau Cyngor Cymuned ym mis Mai, a gyda braslun o waith Cyngorydd Cymunedol, gan obeithio denu diddordeb I lenwi'r seddi gwag. FFurflenni wedi eu didoli i'r cynghorwyr.

## **7. O gwmpas y Bwrdd**

Mae materion yn codi yn aml, lle nad yw'r cynghorwyr cymunedol yn gwybod dim amdanynt. Dymunai'r cynghorwyr glywed gan bobl eu hardaloedd am unrhyw broblem, neu rywbeth sydd yn peru trafferth i gymdogion. Does dim posib i gynghorwyr wneud dim i helpu os nad ydynt yn ymwybodol fod trafferthion neu broblemau yn y lle cyntaf. Ewch i gael sgwrs gyda'ch cynghorwyr.